

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Fawrth 2014

Presennol, Gareth Wynne Cadeirydd, Michael Hughes, Marion Bettenev, Jim Boughton, Gareth Parry, Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriad, Terry Bullock, Medwen Hughes, Gwawr Jones, Karen Pugh, Janet Charlton.

Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Chwefror 2014

Materion yn Codi ;

[1] Yr Heddlu

Yn absenoldeb unrhyw gysylltiad gan Heddlu Gogledd Cymru, y cler c i gesio gwybodaeth ynglun a'r sefyllfa ddiweddara yn ymwneud a materion lleol.

[1.1] Neidio o Bont-y-Pair

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Maes Parcio Pont-y-Pair

Yn dilyn cais gan y Cyngor Cymuned, cyfeiriodd y cler c at gynnig siomedig gafwyd gan y Cyngor Sir i ganiatau parcio drwy consesiwn i ddefnyddwyr y neuadd. Y cler c i anfon yn ol, yn amlinellu siom yr aelodau yn y termau cryfa bosib.

[1.3] Her Gyllidol APCE

Nodwyd y wybodaeth y bydd sylwadau'r Cyngor Cymuned yn cael ei cynnwys mewn adroddiad gan yr Awdurdod yn ystod y mis nesaf.

[1.4] Casgliadau Ysbwriel ac Ail gylchu

Cyfeiriodd y cler c at ymateb y Cyngor Sir i drefniadau casglu o Lon Muriau ar ffordd Llanrwst, yn enwedig y sylwadau bod y ffordd yn arwain i fyny i'r eiddo o'r A470 yn ffordd breifat. Cytunodd y Cyng Jim Boughton barhau ymlaen a'r mater.

[1.5] Gwli wedi tagua a'r Ffordd yr A5 ger y Swyddfa Bost

Nodwyd bod trafferthion yn parhau. Y cler c i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

Y Brif Agenda

[1.6] Pencampwriaeth Y Byd/ Ras Mynydd

Croesawyd Ms Rachel Gill & Natalie Wood [Cyngor BS Conwy] i'r cyfarfod a dywedwyd ganddynt bod bwriad i gynnal dwy gystadleuaeth sef Pencampwriaeth y Byd/Ras Fynyddig yn ystod y cyfnod 12fed i 19eg Fedi 2015. Bydd canolfan ymarfer yn cael ei sefydlu tua 4 mis yn gynharach gyda 1,000 neu fwy o gystadleuwyr o 40 o wledydd gwahanol yn cymeryd rhan.

[1.7] Materion Cynllunio

Cais i newid Gweithdy i Anecs, Ffermdy'r Royal Oak.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.8] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod Chwefror 2014.
[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Chwefror 2014.

[1.9] Meinciau/ Cae Llan

Mynegwyd pryder bod blodau yn parhau i gael ei gadael ar y meinciau er bod rhybudd i wahardd yr arferiad. Y clerc i anfon at Mr Lyn Davies [Cyngor BS Conwy] yn gofyn iddo beidio derbyn dim mwy o feinciau mewn coffâd,

[2] Cynllun Hydro Electrig Rhaeadr Conwy

Cyfeiriodd y clerc at gynnig gan RWE Innogy i ddatblygu cynllun hydroelectrig o'r newydd ar yr afon yn Rhaeadr Conwy a'r Fairy Glenn yn gyfagos i ffordd yr A5. Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys i fyny i £5,000.00 ar gyfer ariannu prosiectau lleol. Rhai sydd wedi ei nodi'n barod.

Y clerc i geisio gwybodaeth pellach ynglŷn â phrosiectau lleol.

[2.1] Gwaith Celf Ffordd yr Orsaf

Penderfynwyd i geisio y wybodaeth ddiweddar ynglŷn a'r gwaith celf sydd wedi ei osod heb awdurdod ar rhai o'r waliau yn Ffordd yr Orsaf.

[2.2] Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst

Penderfynwyd cyfrannu £50.00.

[2.3] Lais Llugwy

Nodwyd llythyr o ddiolch gan Lais Llugwy am gyfraniad o £40.00 tuag at flodau cennin ar gyfer dydd Gŵyl Dewi.

Cadeirydd _____